S4C /

# Arweinydd Creadigol

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

**Pam ymuno â S4C?**

Mae S4C yn chwilio am Arweinydd Creadigol ysbrydoledig i arwain ar hunaniaeth a hyrwyddo gweledol a brand S4C mewn tirwedd ddigidol, aml-blatfform. Mae'r rôl yn gofyn am ddealltwriaeth ddofn ac angerdd am y pwysigrwydd o frand a stori gref, unigryw sy'n dal sylw a denu cynulleidfaoedd newydd.

Byddwch yn gyfrifol am arwain tîm o unigolion creadigol sy'n meddu ar arbenigaethau amrywiol gan gynnwys dylunio, golygu, sgriptio a chynhyrchu asedau hyrwyddo ar gyfer S4C a'i ystod o ymgyrchoedd cynnwys - wedi'i ysbrydoli a'i arwain gan strategaeth hyrwyddo S4C.

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu pawb, Cer Amdani.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â S4C a'r tîm creadigol ar adeg hollbwysig yn hanes y gwasanaeth wrth i ni weithredu ein strategaeth newydd, ***S4C - Mwy na Sianel Deledu***. Bydd disgwyl i chi gyfrannu ar lwyddiant y strategaeth yma gan weithredu strategaeth frand newydd sy'n cysoni ein hunaniaeth weledol er mwyn helpu tyfu cynulleidfaoedd, codi proffil a gwella canfyddiad S4C mewn hinsawdd gystadleuol iawn.

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd yn angerddol am gynnwys S4C ac sydd â gweledigaeth ddigidol arloesol i ymgysylltu a chreu argraff gyda chynulleidfaoedd newydd. Unigolyn sy'n frwdfrydig i arwain ac i ddenu cynulleidfaoedd newydd i holl blatfformau'r sianel drwy ein holl asedau hyrwyddo.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud?**

Bydd yr Arweinydd yn cefnogi'r Pennaeth Marchnata tra'n arwain tîm o unigolion creadigol o ddydd i ddydd. Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal brand, hunaniaeth a hyrwyddo gweledol S4C gan chwarae rhan ganolog yn gweithredu'r is-strategaeth farchnata er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd mor eang â phosib. Gan weithio'n agos gyda thimau Marchnata, Digidol a Chyfathrebu bydd disgwyl i'r Arweinydd gyfrannu'n strategol a gweithredol at lwyddiant ein hymgyrchoedd integredig gan fesur perfformiad ar draws sianeli amrywiol. Ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata a'r Pennaeth Marchnata, byddwch yn gosod cyfeiriad clir i frand gweledol S4C er mwyn ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau digidol sy'n wynebu'r sector ddarlledu.

Gyda dealltwriaeth ddofn o lwyfannau hyrwyddo digidol a thueddiadau cynulleidfaoedd a phrynwyr sy'n esblygu, bydd disgwyl i chi arwain ar arloesedd hyrwyddo creadigol ar draws y sefydliad er mwyn manteisio ar gyfleoedd i farchnata S4C a'i holl gynnwys. Byddwch yn cydweithio gyda'r Tîm Ymchwil i sicrhau bod unrhyw gynlluniau ac ymdrechion hyrwyddo wedi eu targedu a'i seilio ar y mewnwelediadau diweddaraf o ran tueddiadau ac ymddygiadau cynulleidfaoedd gan eu profi lle bo'n bosib.

Bydd gennych sgiliau creadigol cryf gyda phrofiad gweithredol o gynhyrchu ystod o ymgyrchoedd ac asedau, yn ogystal â throsolwg strategol er mwyn medru gosod amcanion, gyrru canlyniadau a sicrhau llwyddiant. Yn fedrus iawn o ran sut i ddatblygu a

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

diogelu stori brand a chreu ymgyrchoedd gweledol trawiadol, byddwch yn gweithredu gydag angerdd a dealltwriaeth o arloesedd cyfryngau a digidol. Byddwch yn rheolwr profiadol sy'n medru ysbrydoli gan ddod â phobl at ei gilydd i wireddu gweledigaeth, gyda chefndir cryf o arwain ar greu asedau creadigol a'r gallu i ddatblygu cynlluniau integredig sy'n cynyddu ymgysylltiad.

Mae'r rôl hon yn eistedd o fewn yr Adran Marchnata, Cyfathrebu ac Ymchwil ond yn allweddol i'r cydweithio agos gyda'r Tîm Digidol a Chyfryngau Cymdeithasol ar ymgyrchoedd integredig.

**Byddwch yn:**

- Datblygu a gwireddu gweledigaeth brand S4C a gweithredu ar gynlluniau creadigol sy'n sicrhau cynnwys beiddgar ac arloesol.
- Cyfrannu'n strategol a gweithredol at lwyddiant ein hymgyrchoedd integredig gan fesur perfformiad ar draws sianeli amrywiol.
- Arwain tîm o unigolion creadigol profiadol o ddydd i ddydd.
- Cynghori ac arwain ar y gwaith o gynhyrchu amrywiaeth o asedau hyrwyddo - gan gynnwys hysbysebion a chlipiau fideo, asedau sain, delweddau a lluniau llonydd, graffeg ac elfennau hunaniaeth brand, elfennau digidol a rhyngweithiol - gan sicrhau ansawdd a chysondeb cynhyrchu ar draws pob allbwn hyrwyddo gweledol a chydymffurfiaeth gyda brand S4C.
- Cynhyrchu a/neu gyfarwyddo er mwyn sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth.
- Goruchwylio gweithdrefnau a phrosesau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu gan gynnwys clirio asedau a sicrhau fod metadata clir yn cydfynd â phob ased.
- Sicrhau llif gwaith effeithiol sy'n cefnogi arloesedd a ffyrdd newydd o weithio gan annog cydweithio creadigol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion newidiol cynulleidfa yn y byd digidol a'r platfformau cyhoeddi newydd sy'n gartref i gynnwys S4C.
- Sicrhau cydweithio effeithlon ar draws timau ac adrannau i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein hamcanion corfforaethol ac yn cyflawni rhagoriaeth greadigol.
- Gweithredu, byw a hybu gwerthoedd S4C gan weithio mewn ffordd gadarnhaol a chydweithredol a sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol, a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

**Y math o berson rydyn ni'n chwilio amdano:**

- Unigolyn sy'n gallu dychmygu ac egluro syniadau beiddgar ac arloesol sy'n ysbrydoli timoedd ac yn siapio cyfeiriad tymor hir.
- Unigolyn sydd yn annog deialog agored ynghyd ag amrywiaeth o safbwyntiau.
- Unigolyn sydd yn dda yn meithrin creadigrwydd a datrys problemau mewn ffordd gydweithredol.
- Unigolyn sydd yn arloesol ac yn barod i arbrofi dulliau newydd i gyflawni amcanion mewn tirwedd sy'n newid yn barhaus.

**Fel Rheolwr byddwch yn:**

- Sicrhau bod cyflawni ein strategaeth yn ganolog i waith y tîm.
- Mentora staff i ddatblygu eu sgiliau drwy roi cefnogaeth ac adborth cyson.
- Arwain, rheoli ac ysgogi eich tîm, gan ddarparu cyfeiriad, amcanion clir ac adborth adeiladol ac ystyrlon mewn cyfarfodydd 1-1 rheolaidd.
- Cefnogi aelodau staff eich timau gan ddatblygu, ymgysylltu a grymuso staff.
- Cyfathrebu'n effeithiol a gweithio'n agos gyda'ch cydweithwyr ac eraill i sicrhau ein bod yn gwireddu ein hamcanion strategol gan weithredu'n effeithiol.

- Adolygu a monitro'r gwaith a gwirio ei ansawdd gan sicrhau targedau ac arweiniad clir gan sicrhau cefnogaeth bwrpasol er mwyn sicrhau safon a datblygiad perfformiad.
- Creu amgylchedd sy'n cefnogi perfformiad uchel, arloesedd, cydweithio, llesiant, datblygu, ymgysylltu a grymuso staff.
- Arwain a rheoli newid gwasanaeth a gwelliant parhaus.
- Sicrhau lles y staff dan eich goruchwyliaeth, yn cymryd cyngor pwrpasol gan eich rheolwr llinell neu yr adran Pobl a Diwylliant fel yr angen.
- Sicrhau diwylliant cadarnhaol a chreu amgylchedd sy'n cefnogi perfformiad uchel arloesedd, cydweithio, llesiant, datblygu, ymgysylltu a grymuso staff.
- Sicrhau bod y staff o dan eich goruchwyliaeth yn gweithio bob amser yn unol â pholisïau a gweithdrefnau S4C gan gynnwys Polisïau Iechyd a Diogelwch, Diogelu data, Cyllid,Rheoli Risg, Cyfle Cyfartal & Chynhwysiant, a materion cyflogaeth.
- Byw a hybu gwerthoedd S4C.
- Disgwylir ichi ymgymryd ag unrhyw waith neu gyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n codi o bryd i'w gilydd a dirprwyo ar ran eich Rheolwr Llinell yn eu habsenoldeb neu fel bo'n ofynnol yn y meysydd sy'n gysylltiedig â'ch gwaith chi.

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg o fewn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gymwysterau, hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.
- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu yn raddol hyd at 32 diwrnod ymhen 9 mlynedd.
- Am sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch â pobl@s4c.cymru.

S4C /

## Manyleb Personol

Yn eich cais, sicrhewch eich bod yn amlygu'r sgiliau a'r profiad sydd gennych sy'n berthnasol i'r rôl a restrir yn y fanyleb bersonol isod ac sy'n unol â'n gwerthoedd craidd. Rhowch enghreifftiau clir sy'n dangos pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | Sgiliau Cymraeg cryf llafar ac ysgrifenedig.<br><br>Y gallu i gyfathrebu ac i weithio yn effeithiol yn y Gymraeg. | |
| **Cymwysterau** | Gradd neu profiad gyfwerth | Cymhwyster Dylunio/Graffeg/Marchnata. |
| **Profiad** | Profiad helaeth o weithio mewn amgylchedd creadigol/brand wedi anelu i gynyddu ymwybyddiaeth cynulleidfa gan ddefnyddio technolegau a llwyfannau arloesol.<br><br>Profiad o ddatblygu strategaethau a chanllawiau brand i sefydliadau neu asiantaethau.<br><br>Dealltwriaeth dda o anghenion cynhyrchu ymarferol.<br><br>Sgiliau digidol cryf gyda phrofiad o ddyfeisio ymgyrchoedd hyrwyddo amlgyfrwng gwreiddiol.<br><br>Profiad o gynhyrchu syniadau a chysyniadau blaengar.<br><br>Y gallu i ysgrifennu copi da ac i gyfarwyddo prosesau creadigol.<br><br>Y gallu i greu ymgyrchoedd amlgyfrwng ar gyfer platfformau gwahanol.<br><br>Profiad o ddatblygu cynnwys digidol ac aml-lwyfan, rheoli ymgyrchoedd defnyddwyr a defnydd o gyfryngau cymdeithasol dwfn.<br><br>Profiad o weithio gydag a thrwy asiantaethau allanol, rheoli perthnasau dwfn a chreu rhwydwaith i gefnogi strategaeth.<br><br>Profiad o reoli ac arwain tîm gan gydlynu llifoedd gwaith effeithiol, | Ymwybyddiaeth dda o'r Sector Ddarlledu/Creadigol. |

| | | |
|---|---|---|
| | rheoli newid a sicrhau gweithdrefnau hyblyg. | |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Gwybodaeth arbenigol o wahanol ddulliau hyrwyddo ac arfer gorau.<br><br>Cefndir creadigol gyda gwybodaeth ragorol am y tueddiadau cynhyrchu a'r technolegau dylunio newydd.<br><br>Dealltwriaeth ddofn o’r tirwedd ddigidol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar gyfer hyrwyddo effeithiol ac effeithlon ar draws llwyfannau rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd.<br><br>Y gallu i symud o feddwl strategol i weithredu ymarferol yn ddi-dor.<br><br>Y gallu i gyfathrebu ac i weithio yn effeithiol yn y Gymraeg. | |
| **Nodweddion Personol** | Lefel uchel o uniondeb personol, a fynegir drwy ymddygiad.<br><br>Hunanymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r angen i fod yn fodel rôl i eraill.<br><br>Dangos Gwerthoedd ac Ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd S4C.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg.<br><br>Sgiliau rhyngbersonol cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br><br>Gwydnwch ac hyblygrwydd.<br><br>Dealltwriaeth o anghenion cynulleidfaoedd mewn tirwedd digidol.<br><br>Sgiliau trefnu a chynllunio da. | |

S4C /

## Manylion eraill

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Swyddfa S4C, Sgwâr Canolog, Caerdydd (o leiaf 3 ddiwrnod yn y swyddfa). Bydd disgwyl i chi weithio o'r swyddfa yn barhaus am y bythefnos gyntaf er mwyn hyfforddi. Bydd disgwyl i chi fynychu/gweithio o swyddfeydd eraill yn ôl yr angen. |
| **Cyflog:** | £55,000 y flwyddyn |
| **Cytundeb:** | Parhaol |
| **Oriau gwaith:** | 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Teithio:** | Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig |

### Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau **erbyn 9.00 ar ddydd Llun 13 Ebrill 2026** at Pobl@s4c.cymru neu Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Dyddiad Cyfweliad: 28 Ebrill 2026**, lleoliad i'w cadarnhau.

### Defnyddio AI

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

S4C /

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

**Sgiliau Cymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg yn y gweithle, ac rydym yn chwilio am rywun sy'n agored i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r iaith fel rhan o'u taith gyda ni. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR